## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol**: | Y Cynghorydd G O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts a Dafydd Roberts |
| **Ymddiheuriadau**: | Y Cynghorydd Margaret M Roberts |
| **Hefyd yn bresennol**: | Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (eitemau 4, 5 a 7);<br>Aelod Portffolio Cynllunio – Y Cynghorydd Richard A Dew (eitem 6)<br><br>Y Cynghorydd D R Thomas. |

(10.00 am - 12.10 pm)

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **2 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| DECISION | Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb. |

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **3 Cofnodion** |
|---|---|
| DECISION | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2021 fel rhai cywir. |

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **4 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant** |
|---|---|
| DECISION | **PENDERFYNWYD nodi cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **5 Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2019/20** |
|---|---|
| DECISION | **PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019** |

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **6 Newid Hinsawdd** |
|---|---|
| DECISION | **PENDERFYNWYD cefnogi a chymeradwyo:-**<br><br>• **gwaith datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd fel bydd yr awdurdod yn gallu croesi'r bont i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030;**<br>• **recriwtio Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd corfforaethol i arwain ar ddatblygu a chyflawni;**<br>• **sefydlu Gweithgor Newid Hinsawdd (gyda chynrychiolaeth wleidyddol), grŵp cynghori, nad yw'n gwneud penderfyniadau, i wneud argymhellion a cheisiadau.** |

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **7 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20** |
|---|---|
| DECISION | **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20** |

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **8 Craffu ar Bartneriaethau** |
|---|---|
| DECISION | **PENDERFYNWYD nodi a chefnogi:-**<br><br>• **Y gwaith craffu ar bartneriaethau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20;**<br>• **Y partneriaethau y bwriedir rhoi blaenoriaeth iddynt yn rhaglen waith y Pwyllgor dros y flwyddyn nesaf;**<br>• **Y camau nesaf arfaethedig y manylir arnynt ym mharagraff 5.11 yr adroddiad;**<br>• **Gwahodd y partneriaethau ble mae'r rhaglen waith wedi llithro yn sgil y pandemig Covid-19 i drafod eu gwaith partneriaethol a hynny i gyd-fynd â'r cyfnod adfer.** |

| ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER | **9 Rhaglen Waith** |
|---|---|
| DECISION | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2020/21;**<br>• **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran** |

| | |
|---|---|
| | **gweithredu'r flaen raglen waith.** |